Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

Ysgol Gymraeg Casnewydd
Heol Fferm Hartridge
Casnewydd
NP18 2LN

Rhif yr ysgol: 6802314

Dyddiad yr arolygiad: 1 Chwefror 2010

gan

Rhiannon Harris
78850

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ebrill 2010

O dan rif contract Estyn: 1116809

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Casnewydd fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gymraeg Casnewydd rhwng 1/2/2010 a 3/2/2010, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Rhiannon Harris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.u). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol

Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig

Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	**Tudalen**

Cyd-destun	**1**
Crynodeb	**2**
Argymhellion	**8**
Safonau	9
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	9
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	**12**
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	12
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	14
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	17
Arweinyddiaeth a rheolaeth	**19**
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	19
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	21
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	22
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	**23**
Atodiadau	24
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	24
2 Data a dangosyddion ysgol	24
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	25
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	27
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	28

Cyd-destun

Natur y Darparwr

1 Lleolir Ysgol Gymraeg Casnewydd ar gyrion dwyreiniol y ddinas mewn adeilad pwrpasol a godwyd yn 1993, ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Addysg Casnewydd (AALl).

2 Mae'r dalgylch yn cynnwys y ddinas a nifer o ardaloedd o'i chwmpas gan gynnwys Magwyr. Mae'r ysgol yn dynodi bod y rhan fwyaf o'i disgyblion yn dod o gefndir sydd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd, a bod y lleiafrif bach a ddaw o gefndir difreintiedig yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Cynrychiolant amrediad gallu llawn.

3 Mae gan 15.8% o'r disgyblion yr hawl i brydau bwyd am ddim, ffigwr sy'n is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nodir bod 59 disgybl, rhyw 14.5% yn rhai sydd ag anghenion addysgu arbennig (AAA). Nid oes gan yr un ohonynt ddatganiad o AAA.

4 Daw tua 2% o gartrefi lle Cymraeg yw iaith yr aelwyd ac mae tua 70% yn siarad Cymraeg i lefel iaith gyntaf. Mae 7% o gefndir lleiafrifol ethnig. Gwaharddwyd un disgybl yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

5 Ar hyn o bryd mae 406 disgybl ar gofrestr yr ysgol, ffigwr sy'n cynnwys 45 plentyn meithrin rhan amser. Mae nifer y disgyblion wedi codi ychydig ers yr arolygiad diwethaf. Fe'u rhennir yn 17 dosbarth yn cynnwys disgyblion yn yr un flwyddyn ysgol. Cyflogir 21 o athrawon ar hyn o bryd, gan gynnwys y pennaeth, a dau o athrawon rhan amser.

6 Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 1998.

7 Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2004. Ers hynny penodwyd dirprwy bennaeth newydd yn Ebrill 2005.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8 Blaenoriaethau'r ysgol yw:

- sicrhau bod pob disgybl yn gwbl fedrus mewn llythrennedd a rhifedd;
- hyrwyddo a datblygu dwyieithrwydd y Gymraeg a'r Saesneg gan hybu sgiliau deuol;
- rhoi'r cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial ymhob agwedd o'r cwricwlwm;
- cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl, waeth beth fo'i ryw, grefydd neu hil;
- annog parch tuag at bobl eraill, i barchu eu heiddo eu hunain ac eiddo eraill;
- pwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymarweddiad i bob disgybl bob amser;
- annog pob plentyn i fod yn annibynnol, yn greadigol ac yn chwilfrydig drwy ddatblygu ei sgiliau meddwl, ei allu i brosesu gwybodaeth, ei allu i resymu ac i ymholi a gwerthuso, a
- darparu amgylchedd ddysgu hapus, diogel sy'n llawn gofal ar gyfer y disgyblion a'r staff.

9 Blaenoriaethau'r ysgol am eleni yw:

- datblygu ymwybyddiaeth o batrymau gweithio a chwarae ('schema') plant ifanc ac ymestyn darpariaeth barhaus y Cyfnod Sylfaen i B1 a B2;
- datblygu cyfleoedd i ymestyn sgiliau'r fframwaith ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys sgiliau creadigol;
- codi safonau darllen ac ysgrifennu yn B3;
- codi lefelau presenoldeb a phrydlondeb;
- ymgeisio am Nod Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol;
- datblygu ymhellach strategaethau 'marcio cau'r bwlch' a marcio cyfoedion, a defnyddio rhaglen INCERTS i dracio cynnydd disgyblion;
- ehangu darpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- cyflwyno cynllun 'Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol Dysgu' (Social and Emotional Aspects of Learning' [SEAL]) i weithdrefnau addysgu'r ysgol a datblygu ethos cynhwysol yr ysgol ymhellach;
- ail-ymweld â chyfrifoldebau cydlynwyr a hyfforddi cydlynwyr newydd, a
- datblygu tir yr ysgol i gynnwys gardd, ardal dwrio mewn pridd ac offer dringo.

Crynodeb

10 Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Casnewydd yn ysgol dda gyda llawer o nodweddion rhagorol. Mae ansawdd rhagorol yr arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad eglur i waith yr ysgol ac yn hyrwyddo safonau uchel. Mewn cymuned ysgol sydd yn seiliedig ar gydraddoldeb a chynhwysiant, darperir profiadau cwricwlaidd cyfoethog a chyfarwyddyd gofalgar. Mae disgyblion yn mwynhau eu bywyd ysgol ac yn rhannu disgwyliadau uchel athrawon. Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac yn aml yn rhagorol, ac yn elfen gref yn y safonau uchel a gyrhaeddir.

11 Mae'r tîm yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu yn y saith cwestiwn allweddol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

12 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

13 Ar draws y cyfnodau allweddol, mae disgyblion o bob gallu, gan gynnwys y rhai ag AAA yn gwneud cynnydd rhagorol, yn llwyddo i gyflawni'r nodau a gytunwyd ar eu cyfer ac yn cyflawni eu potensial. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol iawn ar gyfer ystod o ddisgyblion.

14 Yn asesiadau cwricwlwm cenedlaethol (CC) athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) ar draws y tair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2, sef y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion sy'n saith oed, yn sylweddol uwch na chyfartaleddau canlyniadau'r AALl a Chymru gyfan mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Gymraeg mae'r canran yn gyson uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol dros y tair blynedd diwethaf. O ddefnyddio cymhariaeth gyda chanlyniadau Saesneg ysgolion Saesneg eu cyfrwng, mae canlyniadau Cymraeg yr ysgol yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau sirol. Mae'r dangosydd pwnc craidd (DPC) sy'n gyfuniad o gyflawniad disgyblion ar draws y tri phwnc craidd hefyd yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

15 O gymharu gydag ysgolion eraill ar sail prydau bwyd am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn CA1 yn y chwarter uchaf yn y Gymraeg a'r DPC yn gyson ar draws y tair blynedd diwethaf, ac yn yr ail chwarter mewn mathemateg yn 2007 a 2009 ac mewn gwyddoniaeth yn 2009. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y tri phwnc craidd ac yn y DPC. Yn 2009 cyflawnodd 10% o ddisgyblion lefel 3 yn y Gymraeg, 21% mewn mathemateg a 24% mewn gwyddoniaeth. Mae'r canrannau hyn yn is na chanrannau 2007 a 2008 pan gyrhaeddodd oddeutu 40% o ddisgyblion ar gyfartaledd lefel 3 yn y tri phwnc.

16 Yng nghyfnod allweddol 2 (CA2), mae'r canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4, sef y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion yn 11 oed mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC yn gyson uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae canrannau'r ysgol yn y Gymraeg hefyd yn gyson uwch na chyfartaleddau cenedlaethol Cymraeg a chyfartaleddau sirol yn Saesneg.

17 O gymharu gydag ysgolion yn yr un grŵp prydau bwyd am ddim, mae canrannau'r ysgol yn CA2 yn y chwarter cyntaf yn gyson ar draws y tair blynedd diwethaf yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a'r DPC, ond yn 2007 roedd hi yn yr ail chwarter mewn gwyddoniaeth. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y pedwar pwnc craidd a'r DPC. Yn 2009 cyflawnodd 44% o'r disgyblion lefel 5 mewn Saesneg, 41% yn y Gymraeg, a 59% mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

18 Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i weithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod bechgyn a merched fel ei gilydd yn cyrraedd safonau uchel.

19 Mae cynnydd a safonau plant dan bump yn y medrau allweddol iaith, y defnydd o rifedd a TGCh yn dda. Mae gan ddisgyblion CA1 fedrau iaith a TGCh da ond mae elfennau rhagorol yn eu defnydd o fedrau rhifedd. Mae cynnydd a safonau disgyblion CA2 yn dda yn y medrau Cymraeg a TGCh ond maent yn rhagorol mewn rhifedd a Saesneg.

20 Mae medrau dwyieithog disgyblion yn nodwedd ragorol. Datblyga dysgwyr rhuglder cynyddol yn y ddwy iaith, a'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth mewn un iaith ac ysgrifennu neu siarad amdani yn y llall. Mae medrau creadigol a medrau datrys problemau disgyblion hefyd yn rhagorol.

21 Ar draws y ddau gyfnod allweddol mae disgyblion yn ymateb yn effeithiol i amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a ddefnyddir i sicrhau eu bod yn deall y dasg ac yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae disgyblion yn gwybod beth yw'r targedau iaith a rhifedd a osodir ar eu cyfer mewn trafodaeth gyda'r athro, ac maent yn llwyr ymwybodol o beth sydd angen arnynt i wella eu gwaith.

22 Mae agweddau disgyblion at ddysgu a'r diddordeb sydd ganddynt yn eu gwaith yn dda, ac yn aml yn rhagorol. Mae medrau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) y disgyblion a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhagorol. Mae'r cynnydd rhagorol a wna'r plant dan bump a disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn eu sgiliau gweithio'n annibynnol yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn datblygu agweddau cyfrifol yn effeithiol iawn.

23 Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn rhagorol. Maent yn ymateb yn ardderchog i ddisgwyliadau uchel eu hathrawon, ac i'r gweithdrefnau atgyfnerthu ymddygiad positif sydd yn rhan o fywyd yr ysgol.

24 Dros y tri thymor diwethaf, mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn foddhaol ac yn cyrraedd 91.6%. Mae'r canran hwn yn is na chanrannau lleol a chenedlaethol ar gyfer 2007-08. Effeithir ar y canrannau tymhorol gan lefel uchel o ddisgyblion yn cymryd gwyliau yng nghanol tymor.

25 Datblyga plant dan bump ymwybyddiaeth dda iawn o fyd gwaith drwy chwarae rôl a disgyblion CA1 a CA2 o brofiad cyd-weithio gyda chwmni animeiddio a chwmnïau lleol eraill. Mae eu sgiliau entrepreneuraidd yn datblygu'n effeithiol iawn drwy werthu ffrwythau amser egwyl a chynnyrch gardd yr ysgol. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chynaladwyedd.

Ansawdd yr addysgu a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

26 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
33.3%	66.7%	0%	0%	0%

27 Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na'r darlun cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2008-2009, sef at ei gilydd bod ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn dda neu well (Gradd 1 a Gradd 2) mewn 85% o wersi ac yn rhagorol mewn 17%. Mae ansawdd yr addysgu yn elfen gref yn y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion.

28 Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol wedi sefydlu perthynas waith rhagorol gyda'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'r holl ddisgyblion. Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn gadarn ac yn datblygu'n barhaus. Mae hwn yn sail i weithdrefnau rhannu arfer dda sydd yn sefydledig ac yn rhan hanfodol o ethos yr ysgol. Mae hwn yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

29 Lle mae addysgu yn rhagorol ceir cyd-gynllunio mewn partneriaeth â'r disgyblion a chyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion gydweithio a gweithio'n annibynnol. Trefnir ystod o weithgareddau symbylol ac o brofiadau uniongyrchol a cheir defnydd effeithiol iawn o ddulliau asesu ar gyfer dysgu. Gwelir cynnydd amlwg yn nysgu'r disgyblion ac yn eu gallu i gymryd perchnogaeth o'u dysgu.

30 Lle mae'r addysgu yn dda, caiff gwersi eu paratoi'n drwyadl, gan sicrhau eu bod yn cysylltu'n ystyrlon gyda'r dysgu blaenorol a'r gwersi dilynol. Rhennir nodau a deilliannau'r wers yn effeithiol, rhoddir model iaith da iawn i ddisgyblion ac mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer gweithgareddau yn glir ac yn gryno. Mae cydbwysedd strwythur y wers a'r cyflymder addas yn sicrhau bod disgyblion yn aros ar y dasg, ac mae gwaith pâr a gwaith grŵp wedi'u ffocysu a'u rheoli'n dda. Caiff ymyrraeth gan athrawon neu staff cynorthwyol ei hamseru'n dda i gefnogi ac ymestyn ymdrechion disgyblion.

31 Mae polisi asesu a pholisi marcio clir a chynhwysfawr gan yr ysgol, ac mae'r gweithdrefnau asesu effeithiol yn bodloni gofynion statudol.

32 Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd a rhoddir sylwadau cadarnhaol ar ymdrechion disgyblion ar draws yr ysgol ac ar draws y cwricwlwm. Defnyddir strategaeth 'dau dic a seren' yn fanwl ac yn gyson wrth farcio'r pynciau craidd, i atgyfnerthu'r cyflawniadau ac i nodi agwedd benodol y gellir ei gwella. Mae ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn sefydledig yn y gwersi trwy'r ysgol.

33 Mae gallu disgyblion ar draws yr ysgol i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd mewn gwersi yn rhagorol. Cânt gyfleoedd i ystyried eu gwaith eu hunain yn effeithiol drwy ddyddiaduron dysgu a 'marcio cau'r bwlch'. Cymerant rôl ragweithiol yn y broses o asesu eu gwaith a gosod targedau personol gyda'r athrawon.

34 Cyd-weithia athrawon a staff cynorthwyol yn effeithiol i asesu gwaith y plant dan bump yn barhaus er mwyn monitro eu cynnydd tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn y chwe maes. Asesir gwaith disgyblion CA1 a CA2 yn y pynciau craidd yn fanwl iawn bob tymor. Cofnodir y canlyniadau er mwyn tracio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol, a gosodir targedau realistig ac uchelgeisiol ar gyfer pob disgybl. Defnyddir gwybodaeth asesu yn ystyrlon i gyfeirio cynllunio athrawon.

35 Cydymffurfia'r adroddiadau blynyddol i rieni â gofynion statudol. Maent o ansawdd rhagorol a rhoddant sylwadau manwl a phwrpasol i rieni ar gyflawniadau a safonau gwaith eu plant yn holl bynciau'r CC ac addysg grefyddol. Gosodir targedau am y ffordd ymlaen i bob pwnc craidd a thargedau cyffredinol yn rheolaidd, a rhoddir cyfle yn nhymor yr hydref i rieni ail-ymweld â'r rhain gydag athrawon eu plant.

36 Darperir mynediad cyfartal i gwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac yn berthnasol, ar gyfer y meysydd dysgu dan bump, y CC ar gyfer disgyblion CA1 a'r cwricwlwm newydd i ddisgyblion CA2. Bodlonir yr holl ofynion statudol. Sicrheir cydlyned a dilyniant da iawn. Mae cynllunio gofalus i gwricwlwm y plant dan bump yn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n effeithiol iawn. Ceir cynllunio manwl i ymestyn darpariaeth barhaus yn ôl egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yng CA1. Cynllunnir gwaith prosiect ar gyfer cwricwlwm newydd CA2 sydd yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion yn dda iawn.

37 Ceir polisïau a gweithdrefnau da ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ac mae'r ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd o safon uchel. Darperir

profiadau da ar gyfer hyrwyddo medrau TGCh. Rhoddir pwyslais llwyddiannus iawn ar ddatblygu sgiliau meddwl, sgiliau datrys problemau a sgiliau gweithio'n annibynnol dysgwyr drwy strategaethau 'Athroniaeth ar gyfer Plant' a 'Dysgu i Ddysgu'.

38 Caiff medrau dwyieithog eu hyrwyddo'n rhagorol a rhoddir sylw ardderchog i ddatblygiad ymwybyddiaeth y disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg am ddiwylliannau eraill yn nodwedd eithriadol, a datblygir ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd cynhwysiant, cydraddoldeb a pharch tuag at amryfaliaeth yn ardderchog ar draws y cwricwlwm yn ogystal â mewn digwyddiadau penodol fel yr Wythnos Amlddiwylliannol flynyddol.

39 Cyfoethogir y profiadau dysgu yn ardderchog gan amrywiaeth o ymwelwyr ac ymweliadau. Trefnir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol tu allan i oriau'r ysgol, gan gynnwys cyfrifiaduron, cerdd a chwaraeon, sy'n cyfrannu'n rhagorol at ddatblygiad cymdeithasol disgyblion ac yn hybu eu Cymraeg.

40 Trefnir rhaglen ABCh gyflawn i gynnwys amser cylch ac agweddau sy'n treiddio'r cwricwlwm i gyd. Mae'r addoli ar y cyd dyddiol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion, ac mae'r negeseuon moesol yn treiddio drwy holl ddarpariaeth yr ysgol.

41 Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol megis addysg datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn rhagorol. Ceir pwyslais amlwg ar adfer, ail-ddefnyddio ac ailgylchu a pheidio â gwastraffu ynni. Drwy bartneriaeth yr ysgol gyda'r elusen Cymorth Iechyd Rhyngwladol mae hawliau plant yn cael proffil uchel.

42 Mae partneriaethau'r ysgol yn llwyddiannus ac yn cynnwys nodweddion rhagorol. Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r ysgol uwchradd o safon uchel iawn ac mae gweithdrefnau trosglwyddo disgyblion yn rhagorol. Cyfranna'r bartneriaeth gadarnhaol iawn gydag ysgolion eraill y teulu at ddatblygiad ystod o fentrau. Mae partneriaethau gyda sefydliadau addysg uwch hefyd yn ardderchog.

43 Mynega'r rhieni foddhad am amcanion yr ysgol, am gyflawniadau'r disgyblion ac am yr awyrgylch ofalgar. Mae'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer rhieni plant a fydd yn cychwyn yn y dosbarth meithrin yn dda. Mae nifer o rieni yn helpu gyda gweithgareddau'r ysgol, a gweithia'r gymdeithas rieni ac athrawon (CRA) yn ymroddgar iawn i gynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau cymdeithasol a chodi arian. Mae nodweddion rhagorol i bartneriaethau'r ysgol gyda'r gymuned.

44 Mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith a mentergarwch yn elfen gref iawn o'r ddarpariaeth addysgol, gan gynnwys ystod o ymweliadau a chysylltiadau â busnesau lleol, a phrofiad o gyd-weithio gyda chwmni animeiddio, rheoli siop ffrwythau, gwerthu cynnyrch gardd yr ysgol a chynhyrchu crysau T a chylchgrawn.

45 Mae trefniadau gofal yr ysgol wedi'u cynllunio'n fanwl ac yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Gwneir defnydd rhagorol o wasanaethau ac asiantaethau lles er mwyn helpu'r disgyblion i gyd, gan gynnwys y rhai ag AAA.

46 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn effeithiol. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar, ac mae'r gefnogaeth a ddarperir gan yr athrawes gefnogi

a'r cymorthyddion yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ôl eu gallu a'u hamgylchiadau unigol.

47 Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro ymddygiad yn ardderchog, a cheir mesurau effeithiol i ddileu ymddygiad gormesol. Mae polisïau cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb a phrydlondeb yn drylwyr. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro gwaith disgyblion yn gynhwysfawr, yn drylwyr ac yn ddefnyddiol iawn.

48 Mae'r ysgol yn sicrhau lles pob disgybl. Rheolir trefniadau amddiffyn plant yn effeithiol ac maent yn gyfarwydd i bawb sy'n gweithio yn yr ysgol.

49 Mae'r ysgol yn talu sylw gofalus a thrylwyr i agweddau iechyd a diogelwch. Gweithredir polisïau cyfredol niferus a chynhwysfawr. Cynhelir asesiadau risg yn ofalus ar gyfer ymweliadau ysgol a gwaith maes. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gadw'n iach drwy hyrwyddo gweithgareddau corfforol a bwyta'n iach.

50 Mae'r ysgol yn hygyrch i ddisgyblion gydag anableddau corfforol, ac mae'r cynllunio ar gyfer sicrhau nad ydynt o dan unrhyw anfantais yn dda.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

51 Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion cytûn sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn rhoi ymdeimlad eglur iawn o gyfeiriad i waith yr ysgol ac yn hyrwyddo safonau uchel. Mae ei hymrwymiad i sicrhau cymuned ysgol lle mae pob unigolyn yn cael yr un cyfle, a lle mae pawb yn parchu ei gilydd a thrin ei gilydd gyda chwrteisi a charedigrwydd yn nodwedd ragorol o'i harweinyddiaeth.

52 Caiff ei chefnogi yn rhagorol gan y dirprwy a'r uwch dîm rheoli (UDRh), ac mae'r cydlynwyr yn gwneud eu gwaith yn effeithiol ac yn gydwybodol. Ceir ymdeimlad amlwg o gydweithio tîm sydd yn nodweddiadol o arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.

53 Rhydd yr ysgol ystyriaeth lawn i flaenoriaethau cenedlaethol, sirol a mewnol, ac mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn ddogfen glir a phwrpasol sy'n gosod targedau a nodau heriol. Mae gofynion hyfforddi staff yn cael eu monitro'n gyson, ac mae hyn yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus ac yn cyfrannu'n helaeth at ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r dysgu. Ceir cyswllt clir rhwng y CDY a'r adroddiad hunan arfarnu.

54 Cyflawna aelodau'r corff llywodraethol eu dyletswyddau yn gydwybodol, a gweithiant yn dda gyda'r pennaeth i helpu i osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

55 Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi hen sefydlu yn yr ysgol. Defnyddia'r arweinwyr a'r rheolwyr amrywiaeth o ddulliau er mwyn casglu gwybodaeth am berfformiad yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau asesiadau athrawon o'r CC ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, monitro cynlluniau, arsylwi gwersi a thrafod gwaith disgyblion, a thrafodaeth y staff addysgu a chynorthwyol ar ddarpariaeth yr ysgol mewn perthynas â'r saith cwestiwn allweddol yn y fframwaith arolygu. Cyfrannwyd barn rhieni yn effeithiol drwy holiadur, ac mae'r llywodraethwyr wedi ffocysu ar agweddau penodol fel rhan o raglen waith barhaus. Mae cyfraniad y cyngor ysgol i'r broses hunan arfarnu yn nodwedd ragorol.

56 Mae'r CDY yn ddogfen strategol sy'n nodi nifer cynhwysfawr o flaenoriaethau perthnasol, gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol, lleol a mewnol. Ceir cyswllt clir rhwng rhain a'r broses hunan-arfarnu. Mae'r manylder, gweithrediadau, blaengareddau, targedau a'r dulliau monitro yn amlygu ffocws clir sy'n sicrhau effeithiolrwydd.

57 Mae'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn dda.

58 Ceir cyflenwad da o staff, sydd yn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau drwy hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd. Rhennir eu harbenigedd yn effeithiol iawn i gyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Cyfranna arweinwyr cwricwlwm yn effeithiol iawn at ddatblygiad eu pynciau, a chydweithia staff cynorthwyol yn rhagorol gyda'r athrawon i gyflawni eu cyfrifoldebau.

59 Gwna'r ysgol ddefnydd rhagorol o'r adeilad sydd yn gymharol newydd ac mewn cyflwr da iawn. Mae'n darparu gofod addysgu ardderchog yn yr ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd y tu allan iddynt, yn y neuadd, y llyfrgell a'r ystafell gerdd. Mae'r ystafelloedd meithrin a derbyn yn darparu lle deniadol i gynllunio profiadau dysgu gwerthfawr i'r plant dan bump a gwneir defnydd rhagorol o ardal allanol yr ysgol. Mae gan bob dosbarth fynediad uniongyrchol i'r ardal allanol.

60 Ceir ystod ragorol o adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm, ac mae'r defnydd a wneir ohonynt yn effeithiol iawn.

61 Caiff y defnydd o'r gyllideb ei fonitro'n rheolaidd ac yn effeithiol gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

62 Gan ystyried cyfraniad yr addysgu ardderchog, datblygiad rhagorol y ddarpariaeth gwricwlaidd, yr ethos gofalgar, ffocws clir arweinyddiaeth a rheoli ar godi safonau, a defnydd effeithiol o gyflenwad rhagorol o adnoddau, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da iawn am arian.

Argymhellion

63 Er mwyn parhau'r cynnydd a wnaeth yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf, mae angen i'r corff llywodraethol a'r staff:

A1 cynnal a chadw'r safonau da a rhagorol cyfredol;

A2 parhau i rannu'r arferion addysgu ac asesu rhagorol sy'n bodoli yn yr ysgol;

A3 parhau i ymestyn gweithdrefnau llwyddiannus y Cyfnod Sylfaen i B1 a B2, a

A4 chodi lefel presenoldeb disgyblion.

Cyfeirir at agweddau o'r argymhellion hyn yn CDY cyfredol yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

64 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

65 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

66 Ar draws y cyfnodau allweddol, mae dysgwyr o bob gallu yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn llwyddo i gyflawni'r nodau a gytunwyd ar eu cyfer. Maent yn ymateb yn dda i'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion ystod o ddisgyblion ac maent yn cyflawni eu potensial. Mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da, ac mae disgyblion mwy galluog yn ymateb yn dda i'r her ychwanegol a roddir iddynt ac yn cyflawni safonau rhagorol. Mae disgyblion yn llwyddo beth bynnag yw eu cefndir, ac ar ben CA2 maent yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

67 Yn asesiadau CC athrawon ar ddiwedd CA1 ar draws y tair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2, sef y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion sy'n saith oed, yn sylweddol uwch na chyfartaleddau canlyniadau'r AALl a Chymru gyfan mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Gymraeg mae'r canran yn gyson uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol dros y tair blynedd diwethaf. Nid oes modd cymharu canlyniadau Cymraeg yr ysgol gyda chyfartaleddau lleol gan mai hon oedd yr unig ysgol Gymraeg ei chyfrwng a gynhelir gan yr AALl tan yn ddiweddar iawn. O ddefnyddio cymhariaeth gyda chanlyniadau Saesneg ysgolion Saesneg eu cyfrwng, mae canlyniadau'r ysgol yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau sirol. Mae'r DPC sy'n gyfuniad o gyflawniad disgyblion ar draws y tri phwnc craidd hefyd yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

68 O gymharu gydag ysgolion eraill ar sail prydau bwyd am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn CA1 yn y chwarter uchaf yn y Gymraeg a'r DPC yn gyson ar draws y tair blynedd diwethaf, ac yn yr ail chwarter mewn mathemateg yn 2007 a 2009 ac mewn gwyddoniaeth yn 2009. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y tri phwnc craidd ac yn y DPC. Yn 2009, cyflawnodd 10% o ddisgyblion lefel 3 yn y Gymraeg, 21% mewn mathemateg a 24% mewn gwyddoniaeth. Mae'r canrannau hyn yn is na chanrannau 2007 a 2008 pan gyrhaeddodd oddeutu 40% o ddisgyblion ar gyfartaledd lefel 3 yn y tri phwnc.

69 Yn CA2, mae'r canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4, sef y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion yn 11 oed mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC yn gyson uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae canrannau'r ysgol yn y Gymraeg hefyd yn gyson uwch na chyfartaleddau cenedlaethol Cymraeg a chyfartaleddau sirol yn Saesneg. O gymharu gydag ysgolion yn yr un grŵp prydau bwyd am ddim, mae'r ysgol yn y chwarter cyntaf yn gyson ar draws y tair blynedd diwethaf yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a'r DPC, ond yn 2007 roedd hi yn yr ail chwarter mewn gwyddoniaeth. O gymharu gydag ysgolion yn yr un teulu, mae

canrannau'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y pedwar pwnc craidd a'r DPC. Yn 2009, cyflawnodd 44% o'r disgyblion lefel 5 mewn Saesneg, 41% yn y Gymraeg, a 59% mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

70 Yn 2009, mae perfformiad bechgyn yn well na pherfformiad merched yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn CA1. Yn CA2 nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad cymharol bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn y Gymraeg a Saesneg mae perfformiad y bechgyn yn well. Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i weithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod bechgyn a merched fel ei gilydd yn cyrraedd safonau uchel.

71 Mae cynnydd a safonau plant dan bump yn y medrau allweddol yn dda. Mae datblygiad medrau iaith plant yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dda, a defnyddir pob gweithgaredd a sefyllfa chwarae, gan gynnwys chwarae rôl yn effeithiol i sicrhau bod plant yn datblygu patrymau iaith sy'n berthnasol i fywyd ysgol. Datblygant wybyddiaeth o eirfa lliwiau, siapau, rhifau a ffrwythau. Mae medrau allweddol rhifedd a TGCh yn gyffredinol dda, ac mae'r plant yn eu defnyddio yn gyson yn eu gwersi ac mewn gweithgareddau eraill. Mae'r plant dan bump yn datblygu sgiliau TGCh da wrth ddefnyddio cyfrifiaduron i chwarae gemau iaith a rhifedd a thynnu lluniau. Maent yn ymarfer eu sgiliau rhifedd yn gyson mewn caneuon a rhigymau, yn ogystal â gweithgareddau ymarferol.

72 Yn y medrau allweddol yn CA1, mae safonau disgyblion mewn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn gyson dda. Datblygant fedrau llefaru cynyddol dda gan ddefnyddio terminoleg gywir ar draws y pynciau. Darllena'r mwyafrif ystod o lyfrau yn rhugl ac yn hyderus yn ôl eu gallu, a datblygant sgiliau ysgrifennu da mewn ystod o gyd-destunau amrywiol ar draws y pynciau. Mae safonau medrau allweddol disgyblion CA2 yn y ddwy iaith yn dda ac yn aml yn rhagorol. Llwyddant drafod yn bwrpasol mewn parau a grwpiau, darllenant ystod o lyfrau yn rhugl, ac ysgrifennant mewn nifer o gyweiriau ar draws y cwricwlwm, gan ddangos dealltwriaeth o addasu iaith ar gyfer cyd-destun penodol.

73 Mae medrau rhifedd disgyblion CA1 yn dda, ond mae elfennau rhagorol i gynnydd a safonau disgyblion CA2 yn y medrau rhifedd. Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol ddefnydd cyson o fedrau rhifedd ar draws y pynciau, gan gynnwys gwaith graff, cymesuredd, creu tablau, trin data, tynnu llinellau amser a defnyddio mesuriadau ansafonol a safonol. Mae cynnydd a safonau disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol mewn TGCh yn dda. Defnyddiant eu sgiliau yn gyson mewn gweithgareddau penodol ac yn y gwersi ar draws y cwricwlwm. Dengys disgyblion CA1 sgiliau rheoli da wrth gyfeirio 'Bee-bot' ar grid, a defnyddiant gamera digi-blue i dynnu lluniau o'u gweithgareddau.

74 Mae medrau dwyieithog disgyblion yn nodwedd ragorol. Mae plant dan bump, y mwyafrif ohonynt o gefndir di-Gymraeg yn caffael y Gymraeg yn gyflym. Ar draws y ddau gyfnod allweddol datblygant ruglder cynyddol yn y ddwy iaith. Gall y mwyafrif o ddisgyblion CA2 ddarllen gwybodaeth mewn un iaith a'i defnyddio i ysgrifennu yn yr iaith arall yn ôl y gofyn.

75 Mae medrau creadigol disgyblion yn rhagorol. Mae'r ystod o gyfryngau a ddefnyddir yn eu gwaith celf ar draws yr ysgol yn dangos safon uchel eu creadigrwydd. Dangosant fedrau da yn eu gwaith cerddorol a gymnasteg, a cheir safon ragorol mewn ystod o genres ysgrifennu creadigol yn CA2.

76 Mae medrau datrys problemau disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn rhagorol. Dengys disgyblion CA1 fedrau ardderchog wrth ddyfeisio colyn pwrpasol i ffenestri tai y tri mochyn bach. Gall disgyblion CA2 esbonio sawl ffordd o ddatrys problem fathemategol wrth eu cymheiriaid.

77 Ar draws y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn ymateb yn effeithiol i drafodaeth nod y wers ac i strategaethau sy'n eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu ar ddiwedd y wers. Ymatebant yn rhagorol i amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a ddefnyddir i sicrhau eu bod yn deall y dasg ac yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae disgyblion yn gwybod beth yw'r targedau iaith a rhifedd a osodir ar eu cyfer mewn trafodaeth gyda'r athro, ac maent yn ymwybodol o beth sydd angen arnynt i wella eu gwaith. Mae gweithdrefn marcio cyson 'dau dic a seren' yn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'u cryfderau a pha agweddau penodol sydd angen gwella.

78 Mae agweddau disgyblion at ddysgu a'r diddordeb sydd ganddynt yn eu gwaith yn dda, ac yn aml yn rhagorol. Llwyddant ganolbwyntio yn dda, er bod lleiafrif bach o unigolion yn anesmwytho yn ystod cyflwyniadau athrawon ar brydiau. Maent yn gweithio'n frwdfrydig gan ddefnyddio'u hamser yn effeithiol.

79 Mae medrau ABCh y disgyblion yn rhagorol. Caiff y disgyblion hynaf gyfleoedd i gymryd gofal da o'r rhai ieuengaf ac o amgylchedd yr ysgol. Mae'r plant dan bump yn datblygu sgiliau gweithio'n annibynnol da, mewn gweithgareddau hunangynhaliol a drefnir ar eu cyfer ac wrth gymryd perchnogaeth am dasgau dyddiol y dosbarth. Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol gynnydd da yn eu sgiliau gweithio'n annibynnol ar draws ystod o weithgareddau mewn pynciau gwahanol. Mae hyn yn gosod sylfaen dda ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn datblygu agweddau cyfrifol yn effeithiol iawn.

80 Mae dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion cyfle cyfartal yn rhagorol, a gallant fynegi eu syniadau yn huawdl. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn iawn o bwysigrwydd parchu amrywiaeth y byd a'u cymuned eu hunain fel canlyniad i nifer o strategaethau a fabwysiadwyd gan yr ysgol gan gynnwys 'Athroniaeth ar gyfer Plant' a'r Wythnos Amlddiwylliannol.

81 Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn rhagorol. Maent yn ymateb yn ardderchog i ddisgwyliadau uchel eu hathrawon, ac i'r gweithdrefnau atgyfnerthu ymddygiad positif sydd yn rhan o fywyd yr ysgol. Ymatebant gyda brwdfrydedd i ganmoliaeth y 'sgwâr aur' am ymddwyn a gweithio yn dda. Maent yn groesawgar i ymwelwyr, ac yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion yn yr ysgol. Mae ymddygiad ardderchog y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu ac ar fywyd yr ysgol yn gyffredinol.

82 Dros y tri thymor diwethaf, mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn foddhaol ac yn cyrraedd 91.6%. Mae'r canran hwn yn is na chanrannau lleol a chenedlaethol ar gyfer 2007-2008. Effeithir ar y canrannau tymhorol gan lefel uchel o ddisgyblion yn cymryd gwyliau yng nghanol tymor. Mae'r rhieni yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ynglŷn â phrydlondeb ar ddechrau'r dydd, ac ychydig o ddisgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr.

83 Mae sefyllfaoedd chwarae rôl yn y dosbarthiadau dan bump yn addysgu'r plant yn effeithiol am fyd gwaith. Datblyga disgyblion CA1 a CA2 ddealltwriaeth briodol o fyd gwaith o ystod eang o ymweliadau ac ymwelwyr i'r ysgol. Elwant o

brofiad cydweithio gyda chwmni animeiddio a chwmnïau lleol eraill. Mae eu sgiliau entrepreneuraidd yn datblygu'n effeithiol drwy werthu ffrwythau amser egwyl a chynnyrch gardd yr ysgol. Cânt brofiad cynhyrchu crysau-T a chylchgrawn ysgol.

84 Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chynaladwyedd, a sut y gall yr agweddau hyn effeithio ar ansawdd eu bywyd yn y dyfodol. Deallant ei bod yn hanfodol i leihau gwastraff, arbed ynni, gofalu am ein hunain a'n amgylchfyd a thorri lawr ar y defnydd o ddŵr.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

85 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

86 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
33.3%	66.7%	0%	0%	0%

87 Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na'r darlun cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2008-2009, sef at ei gilydd bod ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn dda neu well (Gradd 1 a Gradd 2) mewn 85% o wersi ac yn rhagorol mewn 17%. Mae ansawdd yr addysgu yn elfen gref yn y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion.

88 Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda, ac ar draws y ddau gyfnod allweddol mae yn gyson dda gyda thraean o wersi yn arddangos nodweddion rhagorol. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag AAA yn gyson dda a cheir cefnogaeth effeithiol ar gyfer y rhai hynny sydd wedi'u neilltuo.

89 Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol wedi sefydlu perthynas waith rhagorol gyda'r disgyblion. Rhoddir canmoliaeth gyson i ymdrechion a gwaith da sydd yn hybu cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad priodol yn y dosbarth a thu allan yn y buarth. Drwy'r addysgu, rhoddir pob cyfle i'r holl ddisgyblion gan gynnwys y rhai ag AAA i ddatblygu i'w llawn botensial, a chaiff stereoteipio rolau bechgyn a merched eu herio'n rheolaidd.

90 Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn gadarn ac yn datblygu'n barhaus oherwydd eu hymrwymiad i raglen gynhwysfawr a strwythuredig. Caiff gwersi eu paratoi'n drwyadl, gan sicrhau eu bod yn cysylltu'n ystyrlon gyda'r dysgu blaenorol a'r gwersi dilynol. Mae hwn yn nodwedd ragorol o ddarpariaeth yr ysgol.

91 Lle mae'r addysgu yn rhagorol:

- ceir cyd-gynllunio mewn partneriaeth a'r disgyblion;
- ceir cyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion gydweithio a gweithio'n annibynnol;
- trefnir ystod o weithgareddau symbylol a geir eu rheoli'n arbennig o dda;

- ceir cyfoeth o brofiadau uniongyrchol;
- ceir defnydd effeithiol iawn o ddulliau asesu ar gyfer dysgu a chyfleoedd perthnasol i ddisgyblion asesu gwaith ei gilydd, a
- ceir cynnydd amlwg yn nysgu'r disgyblion ac yn eu medrau allweddol a'u sgiliau meddwl.

92 Lle mae'r addysgu yn dda:

- rhennir nodau a deilliannau'r wers yn effeithiol a thrafodir y medrau allweddol a fydd dan sylw;
- rhoddir model iaith dda iawn i ddisgyblion;
- mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer gweithgareddau yn glir ac yn gryno;
- mae cydbwysedd strwythur y wers a'r cyflymder addas yn sicrhau bod disgyblion yn aros ar y dasg;
- mae gwaith pâr a gwaith grŵp wedi'u ffocysu a'u rheoli'n dda, a
- chaiff ymyrraeth gan athrawon neu staff cynorthwyol ei hamseru'n dda i gefnogi ac ymestyn ymdrechion disgyblion

93 Mae polisi asesu a pholisi marcio clir a chynhwysfawr gan yr ysgol, ac mae'r gweithdrefnau asesu effeithiol yn bodloni gofynion statudol.

94 Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd a rhoddir sylwadau cadarnhaol ar ymdrechion disgyblion ar draws yr ysgol ac ar draws y cwricwlwm. Defnyddir strategaeth 'dau dic a seren' yn fanwl ac yn gyson wrth farcio'r pynciau craidd, i atgyfnerthu'r cyflawniadau ac i nodi agwedd benodol y gellir ei gwella. Mae ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn sefydledig yn y gwersi trwy'r ysgol, gan gynnwys bodiau, goleuadau traffig, meddwl-paru-rhannu a 'diamond-ranking' sy'n hybu gallu disgyblion i gymryd perchnogaeth o'u dysgu eu hunain.

95 Mae gallu disgyblion ar draws yr ysgol i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd mewn gwersi yn rhagorol. Cânt gyfleoedd i ystyried eu gwaith eu hunain yn effeithiol drwy ddyddiaduron dysgu a 'marcio cau'r bwlch'. Cymerant rôl ragweithiol yn y broses o asesu eu gwaith a gosod targedau personol gyda'r athrawon.

96 Defnyddir yr asesu gwaelodlin yn ardderchog yn y dosbarth derbyn i osod targedau i blant dan bump. Gwneir yr asesu yn y tymor mae'r plentyn yn cychwyn yn y dosbarth derbyn, a defnyddir y canlyniadau'n briodol i fireinio'r cynllunio tymor byr a chyfeirio'r cynllunio tymor hir. Adnabyddir hefyd y plant hynny y mae AAA ganddynt, er mwyn darparu cefnogaeth addas. Rhoddir pwyslais effeithiol ar asesu ffurfiannol yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, er mwyn monitro cynnydd yr unigolyn tuag at ganlyniadau y Cyfnod Sylfaen yn y chwe maes.

97 Asesir gwaith disgyblion CA1 a CA2 yn y pynciau craidd yn effeithiol iawn bob tymor, a chaiff ei lefelu'n gywir yn ôl meini prawf y CC. Cofnodir y canlyniadau er mwyn tracio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol, a gosodir targedau realistig ac uchelgeisiol ar gyfer pob disgybl. Defnyddir y canlyniadau i adnabod y disgyblion hynny sy'n tangyflawni, er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol iddynt. Ceir dadansoddiad manwl a thrylwyr yn gyson o ganlyniadau perfformiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol i gyfeirio gosod targedau ar gyfer pob carfan o

ddisgyblion. Mae athrawon CA1 yn gosod targedau ar gyfer y disgyblion, ond yng nghyfnod allweddol 2 rhennir y broses hon rhwng athrawon a disgyblion ar y cyd. Yn y pynciau sylfaen, rhoddir lefel ar ddiwedd pob blwyddyn sydd yn cyfateb orau i'r disgrifiadau lefel yn y rhaglenni astudio.

98 Defnyddir profion safonol eraill yn flynyddol i ychwanegu'n effeithiol at y wybodaeth sydd gan yr ysgol i dracio datblygiad disgyblion. Rhoddir profion mathemateg, sillafu a darllen Cymraeg i ddisgyblion B1 a B2, a phrofion Cymraeg, Saesneg, mathemateg a sillafu yn flynyddol i ddisgyblion B3-B6. Cofnodir canlyniadau'r rhain mewn ffeiliau dosbarth er mwyn tracio cynnydd disgyblion unigol, a chânt eu dadansoddi'n effeithiol er mwyn rhoi cyfeiriad i gynllunio canolig a thymor byr athrawon a chlustnodi cymorth ychwanegol i'r grwpiau o ddisgyblion targed. Mae'r ysgol yn datblygu cofnodion electronig INCERTS sydd yn hwyluso'r broses ymhellach. Cedwir cofnodion darllen disgyblion unigol yn llawn, a thaflen tracio dosbarth ar gyfer y pynciau sylfaen.

99 Mae portffolios y pynciau craidd yn darparu casgliadau o waith disgyblion wedi'u lefelu a'u hanodi, sydd yn cefnogi safoni lefelau'r asesiadau athrawon yn y pynciau hyn. Mae portffolios o waith yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol sydd yn rhoi cymorth i athrawon lefelu gwaith disgyblion yn ôl disgrifiadau lefel y CC. Mae'r broses o roi casgliadau o waith plant y Cyfnod Sylfaen at ei gilydd yn datblygu'n dda.

100 Cydymffurfia'r adroddiadau blynyddol i rieni â gofynion statudol. Maent o ansawdd rhagorol a rhoddant sylwadau manwl a phwrpasol ar gyflawniadau a safonau gwaith disgyblion CA1 a CA2, a'r plant dan bump. Rhoddir targedau am y ffordd ymlaen i bob pwnc craidd a thargedau cyffredinol yn rheolaidd ar draws yr ysgol, a chaiff rhieni'r cyfle i ymateb i'r adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig. Caiff rhieni gyfle pwrpasol i drafod cynnydd eu plant a thargedau'r haf blaenorol mewn cyfarfod yn Nhachwedd. Cynhelir cyfarfodydd 'syrjeri' yn y gwanwyn i drafod cynnydd disgyblion sydd ar y gofrestr AAA a disgyblion sy'n achosi pryder, a chyfarfod i rieni drafod adroddiad eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol yn yr haf.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

101 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd yn adroddiad hunan arfarnu'r ysgol.

102 Mae nodweddion rhagorol y cwestiwn allweddol yma yn cynnwys**:**

- natur gyffredinol y profiadau cwricwlaidd a ddarperir;
- y cyfraniad cyfoethog iawn a wna ymwelwyr, ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol i brofiadau dysgu;
- ystod eang o brofiadau ar gyfer hyrwyddo ABCh a datblygiad moesol a chymdeithasol dysgwyr;
- y ddarpariaeth ar gyfer hybu dwyieithrwydd a'r Cwricwlwm Cymreig;
- gweithdrefnau a chyfleodd ar gyfer hybu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o ddiwylliannau eraill;

- y ffocws eglur ar addysg gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- ansawdd ardderchog y profiadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth dysgwyr o fyd gwaith a mentergarwch.

103 Darperir cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n ateb gofynion statudol ac sy'n agored i'r holl ddysgwyr. Rhoddir pwyslais effeithiol iawn ar brofiadau uniongyrchol. Mae ansawdd y cynllunio a'r trefniant cwricwlaidd yn dda iawn.

104 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant o dan bump oed yn cyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn cyfoethogi eu dysgu. Gwneir defnydd rhagorol o'r ardal y tu allan i hybu sgiliau ymchwiliol a gweithio'n annibynnol y plant.

105 Y mae'r ysgol yn cwrdd â dyheadau dysgwyr yn effeithiol iawn yn CA1 a CA2. Cynigir prosiectau cyfoethog sy'n seiliedig ar weithgareddau diddorol a heriol, a datblygir gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr yn barhaol drwy'r cwricwlwm. Addaswyd y cwricwlwm yn CA2 i gwrdd â'r gofynion diweddaraf. Ceir polisïau cynhwysfawr ac mae'r cynllunio tymor hir a byr dymor yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y gwahanol bynciau.

106 Ceir polisi a gweithdrefnau da ar gyfer datblygu'r medrau allweddol. Datblygir sgiliau llythrennedd, cymhwyso rhif, datrys problemau a hyrwyddo sgiliau meddwl ar draws y cwricwlwm yn effeithiol iawn. Rhoddir pwyslais llwyddiannus iawn ar ddatblygu medrau creadigol dysgwyr mewn celf a cherddoriaeth. Mae'r profiadau a ddarperir ar gyfer hyrwyddo sgiliau TGCh yn dda. Ceir ystod o brofiadau dysgu effeithiol iawn sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu sgiliau gweithio'n annibynnol rhagorol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio mewn parau a grwpiau ac i werthuso gwaith ei gilydd yn ogystal â gwaith eu hunain yn elfennau pwysig ac effeithiol iawn o'r ddarpariaeth.

107 Ceir ethos Cymreig rhagorol drwy'r ysgol hon. Datblygir ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus iawn ar draws y cwricwlwm, drwy weithgareddau'r Urdd, ac yn ystod yr Wythnos Gymreictod. Mae'r pwyslais a roddir ar weithdrefnau i hyrwyddo medrau dwyieithog yn llwyddiannus iawn, a datblygir sgiliau trawsieithu disgyblion CA2 yn dda iawn.

108 Ceir cyfleoedd cwricwlaidd rhagorol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill trwy wersi daearyddiaeth ac addysg grefyddol, ac amrywiaeth o brosiectau am ystod eang o wledydd. Mae sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cynhwysiant, amrywiaeth, a chydraddoldeb mewn cymdeithas yn greiddiol i ddarpariaeth yr ysgol. Derbyniodd yr ysgol wobr 'Cynhwysiant, Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chyflawniad' (Inclusion, Diversity, Equalities and Achievement [IDEA]) am yr agwedd hon, ac adroddiad canmoladwy iawn o'r AALl. Mae'r Wythnos Amlddiwylliannol flynyddol yn darparu profiadau traws-cwricwlaidd cyfoethog iawn.

109 Mae safon dda iawn i'r ddarpariaeth y tu allan i oriau arferol ysgol. Mae clybiau chwaraeon sy'n agored i fechgyn a merched fel ei gilydd, clwb cyfrifiaduron a chlwb cerdd. Mae nifer sylweddol iawn o'r disgyblion yn cystadlu yn llwyddiannus mewn nifer o gystadlaethau chwaraeon a chystadlaethau'r Urdd gan gynnwys canu a dawnsio gwerin. Maent hefyd yn cymryd rhan yn yr Ŵyl Gerdd Dant.

110 Trefnir llawer o ymweliadau pwrpasol ar gyfer pob dosbarth i nifer fawr o lefydd, yn arbennig i leoliadau sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau hanesyddol a daearyddol. Mae disgyblion B5 a B6 yn elwa o brofiad cwrs preswyl. Chwaraeir rhan bwysig gan ymwelwyr i'r ysgol, yn cynnwys clerigwyr, artistiaid, cerddorion, beirdd ac awduron cyfoes y wlad. Mae'r profiadau a ddarperir yn y cyd-destunau hyn yn nodweddion rhagorol.

111 Mae'r gwersi addysg grefyddol a'r sesiynau addoli ar y cyd yn datblygu ymdeimlad ysbrydol y disgyblion yn dda, ac yn rhoi cyfleoedd gwych iddynt adfyfyrio ar themâu penodol. Maent yn cwrdd â'r gofynion statudol. Ceir elfen o ryfeddu mewn nifer o wersi ar draws y cwricwlwm.

112 Mae'r cyfnodau amser cylch yn cyfrannu'n dda iawn at ddatblygiad moesol a chymdeithasol dysgwyr. Rhoddir pwyslais llwyddiannus iawn ar sicrhau bod disgyblion yn gwrtais i'w gilydd a gyda staff ac ymwelwyr. Mae eu hagweddau at addysg yn frwdfrydig. Codir ymwybyddiaeth disgyblion o'r rhai llai ffodus ac maent yn casglu arian a chyfrannu at achosion da.

113 Ceir cyfleodd niferus ar gyfer cydweithrediad effeithiol iawn mewn parau a grwpiau ac o fewn dosbarth. Drwy gyd-gystadlu mewn eisteddfodau, yng ngweithgaredd yr Urdd, a mynd ar ymweliadau addysgol ynghyd â mynychu cyrsiau preswyl maent yn llwyddo i ddatblygu eu doniau cymdeithasol yn dda iawn. Trwy'r cynghorau ysgol ac eco llwyddiannus iawn cânt gyfle i ysgwyddo cyfrifoldeb. Ceir darpariaeth o safon uchel iawn ar gyfer hyrwyddo ABCh drwy'r cwricwlwm i gyd yn ogystal â chyfnodau penodol. Chwaraeir rhan bwysig gan ymwelwyr gan gynnwys y rhai sy'n gweithio i'r gwasanaethau gofal.

114 Mae partneriaethau'r ysgol gyda rhieni, y gymuned leol, ysgolion eraill a sefydliadau addysg uwch yn cynnwys nodweddion rhagorol sy'n cyfoethogi bywyd a gwaith yr ysgol ac yn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion.

115 Mae rhieni yn gefnogol iawn o'r ysgol ac i raddau helaeth iawn mynegant foddhad am amcanion a gwerthoedd yr ysgol, cyflawniadau'r dysgwyr yn ogystal ag awyrgylch gofalgar yr ysgol. Mae rhieni yn cefnogi yn yr ysgol gyda'r plant dan bump, gyda datblygiad y gerddi, trwy ddarllen gyda phlant a thrwy fynd gyda nhw ar ymweliadau. Mae'r CRA yn frwdfrydig iawn ac yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol a chodi arian i gefnogi'r ysgol. Darperir ystod eang o wybodaeth berthnasol i rieni gan gynnwys cylchlythyron, pecynnau i rieni'r rhai sy'n dechrau ysgol, gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau tymhorol a thrwy ddefnydd o'r wefan.

116 Mwynheir partneriaeth gadarnhaol iawn gydag ysgolion eraill o fewn y teulu ysgolion sy'n cwrdd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygu gwahanol fentrau. Mae gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo disgyblion yn dda iawn ac yn helpu sicrhau eu bod yn edrych ymlaen at y cam nesaf, ac mae rhaglen bontio Ysgol Gyfun Gwynllyw yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth.

117 Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau llwyddiannus gyda nifer o sefydliadau addysg uwch ac mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ar gyfer myfyrwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol. Caiff myfyrwyr eu cefnogi'n dda a gwnânt gyfraniad cadarnhaol i fywyd yr ysgol

118 Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r gymuned yn elfen ragorol o'i bywyd a'i gwaith. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r hyn sydd gan yr ardal a'r gymuned i'w gynnig i ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu dysgwyr, gan gynnwys ymweliadau

aelodau'r gymuned. Gwerthfawrogir a chefnogir amrywiol weithgareddau'r ysgol yn dda iawn. Yn ei thro mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau'r gymuned megis chwaraeon, cystadlaethau corau, gŵyl plant y ddinas a gwasanaethau capel.

119 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda gyda nodweddion rhagorol. Ceir polisi eglur, gweithgareddau a drefnir gan y cyngor eco a rhaglen ail-gylchu ragorol. Mae'r ysgol wedi ennill baner werdd Eco-Sgolion. Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy brofiadau a geir mewn sesiynau addoli ar y cyd, y rhaglenni addysg grefyddol ac ABCh a thrwy'r cyfleoedd i gyfrannu at elusennau. Drwy'r bartneriaeth gydag elusen Cymorth Iechyd Rhyngwladol, ceir ffocws ar hawliau plant.

120 Ceir cefnogaeth dda iawn oddi wrth byd busnes ac mae ymrwymiad yr ysgol i addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith a mentergarwch yn elfen gref iawn o'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu cysylltiadau cryf gydag ystod helaeth o fusnesau fel ffatrïoedd, archfarchnadoedd ac orielau. Mae'r profiadau cyfoethog hyn yn ehangu gwybodaeth disgyblion o wahanol amgylcheddau byd gwaith a'r cyflogwyr yn eu dalgylch ac ymhellach i ffwrdd.

121 Mae'r cyswllt cymunedol yn cynnwys nifer o ymweliadau addysgol i ystod o leoliadau a chroesawu ymwelwyr o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae prosiectau ysgol yn cynnwys cydweithio gyda chwmni animeiddio, cysylltiadau yn ymwneud â chynnal a rheoli siop ffrwythau a gwerthu cynnyrch garddio. Mae prosiectau eraill wedi canolbwyntio ar weithio gyda chwmni teledu, creu crysau-T a chreu cylchgrawn.

122 Mae'r ysgol yn gosod sylfeini llwyddiannus ar gyfer dysgu gydol oes ac adferiad cymunedol. Rhoddir ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol, mewn perthynas â chydraddoldeb, dwyieithrwydd a datblygiadau TGCh. Caiff disgyblion brofiadau da i weithio yn annibynnol ac i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldeb tuag at ddyfodol eu cymuned.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

123 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

124 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion yn rhagorol. Mae pawb yn cael eu parchu a'u trin yn gyfartal mewn awyrgylch hapus a diogel. Mae'r parch sydd gan athrawon at ddisgyblion yn cael ei adlewyrchu yn y modd mae disgyblion yn ymddwyn tuag at oedolion a thuag at ei gilydd. Mae cyngor ysgol a chyngor eco sy'n cynrychioli'r disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r disgyblion yn hapus i drafod unrhyw faterion neu bryderon yn hyderus gyda'r oedolion o fewn yr ysgol.

125 Gwneir defnydd effeithiol iawn o wasanaethau cefnogi ac mae cysylltiadau da iawn gyda'r staff o'r Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion.

126 Mae'r rhaglen ABCh wedi ei sefydlu'n dda iawn ac mae o ansawdd uchel. Mae'n rhoi cyfleoedd i'r athrawon nodi mathau penodol o gefnogaeth sydd eu hangen ar y disgyblion. Caiff ei chyflwyno'n effeithiol iawn yn drawsgwricwlaidd a thrwy weithgareddau penodol megis amser cylch ac Athroniaeth ar gyfer Plant. Sicrheir y gwrandewir ar lais dysgwyr drwy holiaduron, aelodaeth o'r cyngor ysgol a bocsys 'Syniadau a Gofidiau'.

127 Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd yn dda, gyda'r pennaeth yn cyfarfod gyda'r rhieni a'r plant i'w ymgyfarwyddo gyda gweithdrefnau. Cynhelir cysylltiadau cryf rhwng dosbarth meithrin yr ysgol a'r Mudiad Ysgolion Meithrin, ac ymuna plant y dosbarth yng ngweithgareddau a gwyliau'r Mudiad.

128 Ceir cysylltiadau cryf iawn gyda'r ysgol uwchradd ac mae'r broses o drosglwyddo disgyblion yn rhagorol ac yn sicrhau eu bod yn dechrau'r cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus. Sefydlir trefniadau manwl a chynhwysfawr ar gyfer trosglwyddo data, trafodaethau am anghenion pob disgybl, pecynnau gwaith pontio ac ymweliadau gan athrawon cynradd ac uwchradd. Gwneir trefniadau pontio llwyddiannus iawn rhwng B2 a B3 o fewn yr ysgol hefyd.

129 Mae gweithdrefnau da mewn lle er mwyn gofalu am ddisgyblion sydd yn anhwylus neu wedi cael damwain. Mae gan fwyafrif y staff gymhwyster cyfredol cymorth cyntaf.

130 Caiff y berthynas ardderchog gyda rhieni ei adlewyrchu yn yr ymatebion positif yn yr holiaduron a'r cyfarfod cyn-arolwg. Gwna'r ysgol pob ymdrech i gynnwys rhieni disgyblion ag AAA wrth baratoi'r rhaglenni addysg unigol a rhoddir iddynt.

131 Mae iechyd a diogelwch y disgyblion yn flaenoriaeth ac mae gan yr ysgol bolisïau clir a gweithdrefnau yn y meysydd hyn. Goruchwylir disgyblion yn dda iawn yn ystod amserau chwarae a chinio. Cynhelir asesiadau risg perthnasol ar gyfer gweithgareddau a chyn mynd â disgyblion ar ymweliadau.

132 Sefydlwyd gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Cydymffurfia'r trefniadau cofrestru â'r gofynion statudol.

133 Sefydlwyd trefniadau rhagorol ar gyfer annog a galluogi disgyblion i fod yn iach. Hybir arferion bwyta'n iach yn llwyddiannus drwy'r siop ffrwythau, a hyrwyddir byw'n iach drwy weithgareddau addysg gorfforol, strategaethau 'symud yn y dosbarth' a diwrnodau Byw'n Iach. Mae gan bob disgybl y cyfle i drafod materion diogelwch a dinasyddiaeth gyda swyddog cyswllt yr heddlu, ac mae disgyblion B6 yn cymryd rhan mewn gweithgareddau 'Crucial Crew'. Mae'r ysgol wedi derbyn pedwaredd ddeilen y Cynllun Ysgolion Iach.

134 Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer amddiffyn plant, sy'n cwrdd â gofynion statudol. Mae'r trefniadau yn gyfarwydd i bawb sy'n gweithio yn yr ysgol, gydag enw'r swyddog diogelu plant yn hysbys i bob aelod o staff.

135 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn dda. Mae'r defnydd o brofion safonol, ynghyd ag arsylwadau athrawon i ganfod disgyblion sydd ag anawsterau dysgu, yn effeithiol a chynhwysfawr.

136 Adnabyddir ac asesir disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac mae systemau datblygedig da yn yr ysgol i gefnogi eu haddysg.

137 Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) o safon uchel ac yn cynnwys targedau clir, cryno ac amserol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ar y gofrestr AAA. Cânt eu hadolygu yn rheolaidd.

138 Gwna disgyblion gynnydd da yn unol â'u hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.

139 Mae gwaith y cydlynydd AAA yn drwyadl ar draws yr ysgol, a chaiff y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA ei rheoli'n effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn dilyn camau'r Cod Ymarfer AAA yn gywir gyda'r rhieni yn cael eu cynnwys yn rheolaidd parthed cyraeddiadau eu plant, ac yn cyfrannu at adolygiadau tymhorol a blynyddol y disgyblion a'u targedau ar y CAU. Cyfoethogir y ddarpariaeth ysgol gan asiantaethau allanol a cheir cyfleoedd cyson gan y staff i drafod cynnydd disgyblion unigol gyda'r athrawes ymgynghorol a'r seicolegydd addysg.

140 Gweithredir polisïau a strategaethau clir ar gyfer hybu ymddygiad da a dileu ymddygiad gormesol. Hyfforddir y staff i gyd yn effeithiol yn y dulliau 'Disgyblaeth Disyflyd'. Darperir cynlluniau ymddygiad unigol o safon uchel yn ôl yr angen. Mae rheolau'r ysgol yn hysbys i bawb ac wedi eu harddangos yn amlwg.

141 Mae gan yr ysgol bolisïau clir a chynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal cydraddoldeb hiliol, achosion o fwlio ac amrywiaeth. Mae'r polisi a'r cynllun hygyrchedd i'r anabl yn berthnasol ac yn effeithiol.

142 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl yn rhagorol. Caiff gwersi eu cynllunio'n ofalus er mwyn cwrdd ag anghenion unigolion a hyrwyddir cydraddoldeb hiliol drwy holl weithgareddau'r ysgol.

143 Enillodd yr ysgol wobr 'IDEA', a cheir adroddiad canmoliaethus am yr agweddau hyn gan yr AALl.

144 Rhoddir parch mawr i amrywiaeth ddiwylliannol ac mae'n rhan annatod o'r dysgu drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau ar gyfer Wythnos Amlddiwylliannol ac mae hyn yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

145 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

146 Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion cytûn sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae staff, disgyblion a llywodraethwyr yn rhannu'r un disgwyliadau ac yn cydweithio'n effeithiol iawn er mwyn eu cyflawni.

147 Mae'r pennaeth yn rhoi ymdeimlad eglur iawn o gyfeiriad i waith yr ysgol ac yn hyrwyddo safonau uchel. Mae'r pennaeth yn egniol ac yn frwdfrydig gyda gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mae ei hymrwymiad i sicrhau cymuned ysgol lle mae pob unigolyn yn cael yr un cyfle, a lle mae pawb yn parchu ei gilydd a thrin ei gilydd gyda chwrteisi a charedigrwydd yn nodwedd ragorol o'i harweinyddiaeth.

148 Caiff ei chefnogi gan ddirprwy sydd yn cyflawni ei dyletswyddau ysgol-gyfan gyda'r un egni ac ymroddiad, ac sy'n cydweithio'n rhagorol gyda'r pennaeth a holl staff yr ysgol. Mae'r UDRh hefyd yn cyfrannu'n ymroddgar i'r broses o bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yr ysgol. Ceir ymdeimlad amlwg o gyd-weithio tîm sydd yn nodweddiadol o arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.

149 Mae'r cydlynwyr eraill yn gwneud eu gwaith yn effeithiol ac yn gydwybodol; mae hwn yn nodwedd ragorol. Mae nifer o'r staff yn cael eu defnyddio gan yr AALl i arwain gweithdai a diwrnodau hyfforddi yn eu meysydd arbenigedd.

150 Mae cyfathrebu rhwng oedolion yn effeithiol iawn gyda phawb yn cyfrannu at ac yn deall polisïau a gweithdrefnau. Cynhelir cyfarfodydd UDRh, cyfarfodydd cyfnod, a chyfarfodydd staff yn rheolaidd, ac mae trefn amlwg i waith a bywyd yr ysgol. Mae'r diwrnod ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon.

151 Rhydd yr ysgol ystyriaeth lawn i flaenoriaethau cenedlaethol, sirol a mewnol. Mae blaengaredd yn amlwg mewn nifer o fentrau megis cynaladwyedd, addysg iechyd, datblygiadau cwricwlaidd fel y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008, Athroniaeth i Blant, sgiliau meddwl, asesu ar gyfer dysgu, 'IDEA', Dysgu i Ddysgu, Disgyblaeth Disyflyd a 'SEAL'.

152 Mae'r CDY yn ddogfen glir a phwrpasol sy'n gosod targedau a nodau heriol. Caiff gweithrediad y cynllun ynghyd ag effaith y datblygiadau ar yr ysgol eu monitro'n rheolaidd.

153 Mae polisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae gofynion hyfforddi staff yn cael eu monitro'n gyson, ac mae hyn yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus ac yn cyfrannu'n helaeth at ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r dysgu. Mae rheolaeth amser cynllunio a pharatoi athrawon (CPA) yn rhagorol.

154 Mae'r pennaeth, dirprwy a'r staff yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn fanwl ac yn drylwyr, ac yn ei defnyddio i osod targedau. Mae strwythurau cadarn ar gyfer mesur llwyddiant ac ar gyfer eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

155 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cefnogi a monitro athrawon newydd eu cymhwyso yn ardderchog.

156 Cyflawna aelodau'r corff llywodraethol eu dyletswyddau yn gydwybodol, a gweithiant yn dda gyda'r pennaeth i helpu i osod cyfeiriad strategol i'r ysgol drwy'r CDY. Maent yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac maent yn eu cyflawni yn llawn. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd boed fel is-bwyllgorau neu yn gorff llawn. Bu nifer yn mynychu cyrsiau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau.

157 Maent wedi trefnu rhaglen waith benodol sydd yn ymdrin ag ystod o agweddau ysgol, gan gynnwys addysgu a dysgu, darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag AAA, defnydd effeithiol o ddata, materion iechyd a diogelwch, cynhwysiant a chydraddoldeb, targedau'r disgyblion a datblygiad y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008. Gweithredant mewn awyrgylch o gefnogaeth fel cyfaill beirniadol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

158 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

159 Mae'r broses hunan arfarnu wedi hen sefydlu yn yr ysgol. Cafwyd adroddiad hunan arfarnu manwl a threfnus ar ddechrau'r arolygiad. Roedd y graddau a roddwyd gan yr ysgol i'r saith cwestiwn allweddol wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn cyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd ganddi. Mae'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.

160 Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r holl staff yn dangos ymrwymiad llwyr i gynnal safonau uchel ar draws yr ysgol. Defnyddir nifer o ddulliau hunan arfarnu gan gynnwys archwilio'r cynllunio, trafod gwaith disgyblion, arsylwi ffurfiol o wersi a dadansoddiad gofalus o ddata. Trwy weithredu'r prosesau hunan arfarnu, maent yn llwyddo adnabod mannau ar gyfer datblygu a gweithredu.

161 Caiff y disgyblion gyfleoedd addas i fynegi barn trwy holiaduron pwrpasol. Mae cyfraniad y cyngor ysgol i weithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol yn nodwedd ragorol.

162 Mae arweinwyr y cwricwlwm yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn ardderchog. Maent yn monitro'r cynlluniau, arsylwi gwersi, archwilio samplau o waith, ac yn cynnal trafodaeth gyda disgyblion yn rheolaidd, a lluniant bortffolio i arddangos enghreifftiau o waith. Cynhyrchant adroddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n nodi barnau a'u blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn glir.

163 Gwneir asesiad manwl o ganlyniadau asesu a phrofion gan gynnwys asesiadau ar ddiwedd CA1 a CA2 a chanlyniadau asesiadau eraill. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r dadansoddiad yma i glustnodi cryfderau a gwendidau.

164 Mae'r CDY yn gynllun clir sy'n dangos blaenoriaethau'r ysgol yn eglur, camau gweithredu ar gyfer gwelliant ac adnoddau ariannol. Mae hyn oll yn seiliedig ar wybodaeth a ddaw o'r broses hunan arfarnu. Mae'n ddogfen weithredol a defnyddiol iawn.

165 Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn effeithio'n dda iawn ar ddatblygiad staff, ac yn cyfrannu yn uniongyrchol at adnabyddiaeth anghenion proffesiynol yr holl staff. Mae amserlen hyfforddiant mewn-swydd (HMS) yn adlewyrchu'r cysylltiad rhwng hyfforddiant ag anghenion cyfredol yr ysgol. Gwerthusir pob cwrs gan y staff ac mae hwn yn nodwedd ragorol.

166 Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf ac wedi bod yn llwyddiannus i weithredu gwelliannau mesuradwy. Yn gyffredinol mae wedi parhau i gynnal safonau da a da iawn. Mae'r disgyblion yn gweithio yn dda iawn mewn gwersi. Gwelwyd datblygiadau cadarnhaol yn y broses hunan arfarnu a gwaith monitro'r cydlynwyr. Mae dulliau cyfathrebu â rhieni yn dda ac mae'r corff llywodraethol yn deall y broses hunan arfarnu gan gynnwys adolygu a derbyn polisïau.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

167 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

168 Mae'r nodweddion rhagorol yn y cwestiwn allweddol hwn yn cynnwys:

- ansawdd uchel gyffredinol yr holl staff a'r defnydd effeithiol iawn a wneir ohonynt;
- effeithiolrwydd y rhaglen datblygu staff;
- ansawdd da iawn yr adeilad, lleoliad ac adnoddau a'r defnydd dychmygus iawn ohonynt;
- ansawdd uchel iawn yr amgylchedd a'r awyrgylch ddysgu sydd wedi eu creu yn yr ysgol, a
- llwyddiant arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau i gyfoethogi profiadau disgyblion.

169 Ceir cyflenwad da o staff i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol ac ystod eang o arbenigedd sydd yn cael ei rhannu'n effeithiol iawn. Mae'r athrawon wedi eu lleoli'n briodol iawn a gwneir defnydd effeithiol o'r arbenigedd sydd ar gael mewn pynciau megis cerdd ac addysg gorfforol. Mae'r cynllunio ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau yn dda iawn ac mae'r arweinwyr cwricwlwm yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddatblygiad eu pynciau a'u meysydd. Mae'r defnydd a wneir o athrawon yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth.

170 Buddsoddir yn dda i sicrhau staff cynorthwyol dosbarth brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r athrawon ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae eu cyfraniad cyffredinol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r disgrifiadau swydd sydd gan bawb yn rhoi amlinelliad clir o'u cyfrifioldebau.

171 Gwneir defnydd rhagorol o gronfa gwella ysgol ac arian nawdd y cyngor addysgu i sicrhau bod athrawon yn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau addysgu drwy ddilyn rhaglenni hyfforddiant. Mae'r staff ategol yn elwa o ystod dda iawn o sesiynau hyfforddi ac mae datblygiad eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i'r ddarpariaeth gyffredinol. Cydweithia'r holl staff yn effeithiol iawn fel tîm wrth werthuso ansawdd elfennau o hyfforddiant ac wrth rannu gwybodaeth.

172 Ceir gweithdrefnau da iawn ar gyfer CPA athrawon ac mae trefniadau effeithiol iawn mewn lle ar gyfer cefnogi athrawon sydd newydd eu cymhwyso.

173 Perthyn nifer o elfennau trawiadol i'r safle a'r adeilad sydd mewn cyflwr da iawn. Ceir ystafelloedd dosbarth sydd ar y cyfan yn ddigonol o ran maint, ac mae gan bob un ohonynt fynediad uniongyrchol i ardal allanol yr ysgol. Ymhlith yr elfennau nodweddiadol y mae ardal Gyfnod Sylfaen ddeniadol, ystafell gerdd a llyfrgell bwrpasol, neuadd fawr sy'n addas iawn ar gyfer ystod helaeth o weithgareddau a choridorau eang ar gyfer cyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol a phrofiadau dysgu. Gwneir defnydd da gyda nodweddion rhagorol o'r rhain.

174 Ceir arddangosfeydd rhyngweithiol rhagorol ar draws yr ysgol sy'n adlewyrchu a chefnogi profiadau dysgu yn effeithiol iawn. Cyfrannant yn helaeth at yr ethos o barch a ddangosir tuag at ddysgwyr a chânt eu newid yn rheolaidd.

175 Gwneir defnydd effeithiol o ardaloedd tu allan gan gynnwys cae chwarae ac ardal goedwig. Datblygir gerddi diddorol yn gysylltiedig â rhai o brosiectau cwricwlaidd yr ysgol.

176 Mae'r gofalwr a'r glanhawyr yn gweithio'n effeithiol iawn i gadw'r ysgol yn lân ac yn daclus. Gwneir cyfraniad pwysig gan gynorthwywyr gweinyddu'r ysgol i fywyd a gwaith pob dydd yr ysgol.

177 Gwneir defnydd effeithiol o gefnogaeth ariannol hael y CRA mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ei cheisiadau am rai grantiau.

178 Y mae'r pennaeth, yr UDRh a'r holl staff yn chwarae rhan gyda'r corff llywodraethol wrth sicrhau fod yr adnoddau yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau ar gyfer datblygiad. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i sicrhau digonolrwydd a chymhwyster yr adnoddau. Ceir ystod o adnoddau da a da iawn ar gyfer cefnogi cwricwlwm y disgyblion, ac maent yn briodol i anghenion yr ystod oed. Mae'r defnydd a wneir o adnoddau ar gyfer ystod eang o weithgareddau cyfoethog, gan gynnwys meysydd y Cyfnod Sylfaen, yn elfen ragorol o'r ddarpariaeth.

179 Mae'r ysgol yn dilyn polisi gwerth gorau am arian yr AALl ac mae'r llywodraethwyr, y pennaeth a swyddog cyllid yr awdurdod yn monitro gwariant cyllid ysgol yn ofalus. Defnyddiwyd y swm gymharol sylweddol oedd mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn bennaf ar brynu canopïau ar gyfer ardal allanol y Cyfnod Sylfaen.

180 Wrth ystyried cyfraniad yr addysgu ardderchog, datblygiad rhagorol y ddarpariaeth gwricwlaidd, yr ethos gofalgar, ffocws clir arweinyddiaeth a rheoli ar godi safonau, y defnydd effeithiol o gyflenwad rhagorol o adnoddau a safonau cyrhaeddiad uchel dysgwyr, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da iawn am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn falch bod y tîm arolygu wedi cytuno â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu yn y saith cwestiwn allweddol, a'u bod wedi cydnabod bod Ysgol Gymraeg Casnewydd yn ysgol dda gyda nodweddion rhagorol.

Mae'r arolygiad wedi amlygu llawer o nodweddion rhagorol sy'n rhan o'n bywyd a'n gwaith o ddydd i ddydd yn yr ysgol hon. Gwerthfawrogwn yn arbennig y cyfeiriadau a wnaed at ansawdd yr arweinyddiaeth, y gymuned ddysgu, ymddygiad ac agwedd ein disgyblion a'r safonau uchel a gyrhaeddir. Rydym yn falch bod yr arolygwyr wedi canfod bod ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac yn aml yn rhagorol a chydnabod bod canlyniadau'r ysgol yn uchel iawn o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith caled y staff, disgyblion a llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Casnewydd.

Hoffai'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch yn fawr i Mrs Rhiannon Harris a'r tîm arolygu am gynnal yr arolwg mewn modd proffesiynol a chwrtais.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu ar argymhellion yr adroddiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gymraeg Casnewydd
Math o ysgol	Cynradd gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen
Ystod oedran y disgyblion	3 -11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Fferm Hartridge Casnewydd
Cod post	NP18 2LN
Rhif ffôn	01633-290270

Pennaeth	Mrs Gwenda Roberts
Dyddiad penodi	Ebrill 1998
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr John Valentine Williams
Arolygydd cofrestredig	Mrs Rhiannon Harris
Dyddiadau'r arolygiad	1af - 3ydd Chwefror 2010

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	22.5	53	53	57	68	38	42	50	383.5(call)

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	19	2	19.8

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20.1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	7.1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	24
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.2:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2009	90	92	92
Haf 2009	94	93	91
Hydref 2009	90.4	91.7	92.3

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	15.8
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	1

Atodiad 3

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

Ysgol Gymraeg Casnewydd **Rhif yr AALl/Ysgol:680/2314**
Casnewydd

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi

Cyfnod Allweddol 1

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 2+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Saesneg	.	85	78	.	91	88	.	88	83
Cymraeg	100	100	87	100	100	93	100	100	90
Mathemateg	97	91	85	93	92	89	94	91	87
Gwyddoniaeth	100	94	88	93	95	92	96	95	90
DPC	97	84	77	93	89	85	94	87	81



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

8% neu fwy a hyd at 16% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Saesneg		80		88		93	
Cymraeg		84		92		***100***	
Mathemateg		84		90	***94***	96	
Gwyddoniaeth		87		94	***96***	100	
DPC		76		85		92	***94***

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

Ysgol Gymraeg Casnewydd **Rhif yr AALl/Ysgol:680/2314**
Casnewydd

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi
Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Saesneg	100	82	76	97	90	87	98	86	81
Cymraeg	100	100	73	97	97	86	98	98	80
Mathemateg	100	85	80	100	89	85	100	87	82
Gwyddoniaeth	100	91	84	100	93	89	100	92	86
DPC	100	79	73	97	87	82	98	83	77



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

8% neu fwy a hyd at 16% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Saesneg		78		85		92	***98***
Cymraeg		69		80		90	***98***
Mathemateg		79		87		93	***100***
Gwyddoniaeth		84		90		97	***100***
DPC		72		81		88	***98***

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tîm o bedwar arolygydd gyfanswm o 11 o ddiwrnodau arolygu yn yr ysgol. Bu asesydd cymheiriaid hefyd yn yr ysgol am dri diwrnod. Cynorthwywyd y tîm arolygu gan enwebai'r ysgol. Cyfarfu'r tîm cyn i'r arolygiad gychwyn.

Bu'r arolygwyr hyn yn ymweld â:

- 33 o wersi neu rannau o wersi;
- cyfnodau cofrestru, gwasanaethau a gweithredoedd o addoli ar y cyd, ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cynhaliodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- athrawon a staff cynnal;
- grwpiau o ddisgyblion ym mhob dosbarth;
- y cyngor ysgol, y cyngor eco, a
- partïon eraill â diddordeb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 49 o ymatebion i'r holiadur rhieni, y mwyafrif ohonynt yn gadarnhaol;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- ystod eang o waith presennol y disgyblion ynghyd â gwaith a wnaed eisoes, ac
- enghreifftiau o adroddiadau'r disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	**Cyfrifoldebau**
Rhiannon Harris Arolygydd Cofrestredig	**Arwain ar:** Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion ac Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1, 2 a 5
Gwynoro Jones Arolygydd Lleyg	**Cyfrannu at:** Cwestiynau Allweddol 1, 3, 4 a 7 Argymhellion
Meinir Howells Arolygydd Tîm	**Arwain ar:** Cwestiynau Allweddol 4 a 6 **Cyfrannu at:** Argymhellion
Brinley Jones Arolygydd Tîm	**Arwain ar:** Cwestiynau Allweddol 3 a 7 **Cyfrannu at:** Argymhellion
Alun Rees Asesydd Cymheiriaid	Cyfrannu at gyfarfodydd ac yn arsylwi gwersi
Gwenda Roberts Enwebai	Cyfrannu at gyfarfodydd ac yn arsylwi gwersi

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni Ysgol Gymraeg Casnewydd am eu cydweithrediad parod cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ